# CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU
# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Mercher 19eg Gorffennaf 2023

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd T. Palmer (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C. Weaver, M. Lewis, P. Lewis, M. Norris, E. Williams, ac N. Yeowell

O. Richards – Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun (Aelod Cyfetholedig heb bleidlais)

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
L. Rees-Jones – Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (CSC)
C. Lee – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (DC)
J. Dong – Dirprwy Swyddog Adran 151/Prif Swyddog Cyllid (CDaSA)
C. Hurst – Rheolwr y Gronfa Bensiwn (CSP)
D. Jones-Thomas – Rheolwr Buddsoddi (CSG)
P. Griffiths – Cyfarwyddwr Cyllid a Gwella (RhCT)
D. Fielder – Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (CSFf)
A. Bull – Pennaeth Pensiynau (CST)
A. Parnell – Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddi Pensiynau (CSC)
T. Williams – Uwch-swyddog y Gwasanaethau Ariannol (CSC)
E. Evans – Swyddog Gwasanaethau Aelodau (CSC) [Cynorthwyo]
A. Eynon – Cyfieithydd ar y Pryd (CSC)

**Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau:**
R. Barrack – Hymans Robertson
K. Dickson – Hymans Robertson
I. Campbell – Hymans Robertson
R. Thornton – Link Fund Solutions
K. Midl – Link Fund Solutions
J. Zealander - Link Fund Solutions
A. Samson– Robeco
J. Leggate – Russell Investments
T. Paik – Russell Investments
M. Buchannan – Russell Investments
J. Blewitt – Archwilio Cymru
D. Joyce – Northern Trust

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:**
M. Falconer - Rheolwr Pensiwn (DC)
L. Grey – Swyddog Pensiynau Graddedig (CST)
Y. Keitch – Prif Gyfrifydd (RhCT)
G. Watkins – Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw (DC)
I. Guy – Dirprwy Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun (Wrth Gefn)

**Cyfarfod Rhithwir : 10.50 yb - 12.54 yp**

1. **PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Ted Palmer yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

Diolchwyd i'r cyn-Gadeirydd am ei waith caled a'i gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd

2. **PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Elwyn Williams yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Sir Gwynedd) a Chris Moore (Cyngor Sir Caerfyrddin).

4. **DATGANIADAU O FUDDIANT**

| **Aelod** | **Rhif yr Eitem ar yr Agenda** | **Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd M. Lewis | Pob eitem ar yr agenda | Ef a'i wraig yn aelodau o Gronfa Bensiwn Abertawe. |
| Y Cynghorydd P. Lewis | Pob eitem ar yr agenda | Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Powys |
| Y Cynghorydd N. Yeowell | Pob eitem ar yr agenda | Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf |
| Y Cynghorydd M. Norris | Pob eitem ar yr agenda | Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf |
| Y Cynghorydd T. Palmer | Pob eitem ar yr agenda | Mae ei bartner a'i ferch yn aelodau o Gronfa Bensiwn Clwyd |
| Y Cynghorydd E. Williams | Pob eitem ar yr agenda | Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| Y Cynghorydd C. Weaver | Pob eitem ar yr agenda | Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro |

[Sylwer: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei Awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

5. **LLOFNODI YN GOGNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR A GYNHALIWYD 29 MAWRTH 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 gan eu bod yn gywir.**

## 6. DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2022/23

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cyflwynodd yr Awdurdod Cynnal y Ffurflen Flynyddol a archwiliwyd ar gyfer 2022/23.  Roedd adrannau Datganiadau Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Ffurflen Flynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Cynnal yr oedd ei Adain Archwilio Mewnol wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol.

Roedd y Ffurflen Flynyddol hefyd wedi'i harchwilio gan Archwilio Cymru a chyflwynodd Mr Jason Blewitt o Archwilio Cymru y llythyr archwilio i'r Cyd-bwyllgor.

Roedd yr Awdurdod Cynnal hefyd wedi paratoi Datganiad Cyfrifon llawn ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2022/23. Nid oedd y Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fyddai'n cael ei archwilio. Fe'i paratowyd er gwybodaeth yn unig, i gefnogi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD**

**6.1 Derbyn y llythyr gan Archwilio Cymru ynghylch Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2022/23;**
**6.2 Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol wedi'i Harchwilio ar gyfer 2022/23;**
**6.3 Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon llawn heb ei Archwilio ar gyfer 2022/23.**

## 7. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN Y AWDURDOD LLETYA

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwyr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd; ac
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod diweddariad yr Awdurdod Cynnal yn cael ei dderbyn.**

## 8. ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 2 2023

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Cofrestr Risg Ch2 2023. Yn ystod y chwarter diwethaf roedd y Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r gofrestr, gan edrych ar ail hanner yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.7 i G.14. Roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r adolygiad ar gyfer pob risg.

Cafodd y Cyd-bwyllgor wybod bod risg arall wedi'i hychwanegu, risg G.15 - nid yw PPC yn barod ar gyfer canlyniadau unrhyw ymgynghoriad neu newid rheoleiddiol. Bydd y sgôr yn cael ei monitro a'i thrafod yn rheolaidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau i Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

## 9. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn manylu ar yr Adolygiadau Polisi Blynyddol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r polisïau canlynol:-

- Polisi Risg Hinsawdd
- Polisi Pleidleisio (Polisi Stiwardiaeth)

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o'r polisïau hyn ac roedd angen cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar y polisïau diweddar.

Mae Hymans wedi adolygu'r gwaith a gwblhawyd yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a Pholisi Risg Hinsawdd ac wedi amlygu rhai meysydd allweddol ar gyfer camau gweithredu/gwella dros 2023/24.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 gymeradwyo'r polisïau wedi'u diweddaru, fel y nodir uchod;**
**9.2 nodi diweddariad cynnydd blynyddol Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd.**

## 10. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR - ADOLYGIAD CH1 2023

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Diweddariadau marchnad;
- Daliannau Cyfredol y Gronfa;
- Diweddariadau is-gronfeydd a mentrau eraill;
- Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol.

**PENDERFYNODD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad gan y Gweithredwr.**

**11. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 MAWRTH 2023**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2023. Nodwyd bod yr is-gronfeydd wedi perfformio'n uwch/tanberfformio yn erbyn eu meincnodau priodol, fel a ganlyn:

- Cyfleoedd Byd-eang - wedi perfformio 1.36% gros / 1.04% net yn well
- Twf Byd-eang - tanberfformiad o 0.40% gros / 0.81% net
- Marchnadoedd Datblygol - wedi perfformio 0.92% gros / 0.47% net yn well
- Cyfleoedd y DU - tanberfformiad o 0.83% gros / 1.23% net
- Bond Llywodraeth Fyd-eang – wedi perfformio 1.63% gros / 1.40% net yn well
- Credyd Byd-eang – tanberfformiad o 0.15% gros / 0.02% net

Nid oedd cronfeydd MAC ac ARB yn cyrraedd eu targedau. Roedd cronfa Credyd y DU yn uwch na'i tharged.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiadau Perfformiad yr Is-Gronfeydd, fel y nodir uchod, ar 31 Mawrth 2023.**

**12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 fod Dirprwy gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun yn aros yn y cyfarfod, yn ystod trafodaeth ynghylch adroddiadau eithriedig a rhoi caniatâd ar gyfer y flwyddyn galendr sydd i ddod.**

**12.2 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

13. **ADOLYGIAD PERFFORMIAD BENTHYCA GWARANNAU 2022/23**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar yr Adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarannau ar gyfer 2022/23.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarannau 2022/23.**

14. **GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU CH1 2023**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor yr Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch1 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch1 2023.**

15. **ADRODDIADAU BUDDSODDI CYFRIFOL A RISG HINSAWDD**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Cafodd y Cyd-bwyllgor yr adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd mewn perthynas â'r cronfeydd canlynol:-

- Twf Byd-eang
- Cyfleoedd Byd-eang

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd ar gyfer Ch1 2023.**

## 16. ADOLYGIAD O IS-GRONFA PPC

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy niweidio o bosib y broses gaffael.**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor is-gronfa adolygu o Gronfa Ecwiti Cyfleoedd PPC y DU, y Gronfa Credyd Byd-eang a'r Gronfa Bond Llywodraeth Fyd-eang.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adolygiad Is-Gronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

## 17. CAFFAEL GWEITHREDWR - MEINI PRAWF GWERTHUSO

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy niweidio o bosib y broses gaffael.**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach].

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ynghylch y meini prawf gwerthuso ar gyfer caffael gweithredwr a fyddai'n cael ei anfon at bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.

**PENDERFYNWYD cytuno ar y Meini Prawf Gwerthuso - Caffael Gweithredwr a'u hanfon at bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**